Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru 2026: Pum Cipolwg Pwysig

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dr Thomas Nicholls

Prif Economegydd

Pum Cipolwg Pwysig

1. Mae twf economaidd wedi dychwelyd ond mae'n wan yn ôl safonau hanesyddol

2. Cynhyrchiant yw prif her economaidd hirdymor Cymru

3. Mae Cymru yn wynebu pwysau demograffig ac iechyd cynyddol


4. Mae aelwydydd yn parhau i fod o dan bwysau ariannol, er gwaethaf gwelliannau mewn safonau byw

5. Mae Cymru yn wynebu newidiadau hirdymor sylweddol i'w heconomi

Mae twf economaidd wedi dychwelyd ond mae'n wan yn ôl safonau hanesyddol

- Tyfodd economi'r DU yn 2025 a disgwylir iddi barhau i dyfu dros y ddwy flynedd nesaf. Mae prisiau ynni uwch ac ansefydlogrwydd rhyngwladol yn golygu bod y rhagolygon yn parhau i fod yn ansicr.


- Mae'r twf mewn allbwn economaidd fesul person yn dal i fod yn llawer is na'r cyfraddau cyn yr argyfwng ariannol. Mae gan Gymru hefyd un o'r lefelau isaf o allbwn economaidd fesul person yn y DU.



Cynhyrchiant yw prif her economaidd hirdymor Cymru

- Cynhyrchiant yw'r ffordd fwyaf cynaliadwy o ddarparu gwelliannau mewn cyflogau, safonau byw a refeniw cyhoeddus.


- Byddai cau'r bwlch yn helpu i godi incwm. Byddai hefyd yn sicrhau bod mwy o adnoddau ar gael ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, galluogi trethi is neu'r ddau.



Mae Cymru yn wynebu pwysau demograffig ac iechyd cynyddol

- Mae poblogaeth Cymru yn heneiddio. Rhagwelir y bydd ei phoblogaeth oedran gweithio hefyd yn gostwng.


- Mae disgwyliad oes iach wedi gostwng. Mae salwch hirdymor yn dal i fod yn brif achos anweithgarwch economaidd. Mae'r tueddiadau hyn yn peryglu cyfyngu twf yn ogystal â chynyddu'r galw am wasanaethau cyhoeddus.



• Mae aelwydydd yn parhau i fod o dan bwysau ariannol, er gwaethaf gwelliannau mewn safonau byw

- Mae chwyddiant wedi gostwng yn sylweddol o'i uchafbwynt yn 2022. Mae'n dal i fod yn uwch na'r gyfradd darged ac mae aelwydydd yn parhau i wynebu prisiau llawer uwch na chyn 2022.

- Mae incwm aelwydydd yng Nghymru yn parhau i fod yn is na chyfartaledd y DU, tra bod cyfraddau tlodi yn parhau i fod yn uchel iawn.



Mae Cymru yn wynebu newidiadau hirdymor sylweddol i'w heconomi

- Mae newid yn yr hinsawdd, deallusrwydd artiffisial a newid demograffig yn debygol o newid yr economi a chyllid cyhoeddus.
- Mae Cymru'n parhau tuag at sero net. Disgwylir buddion hirdymor, ond bydd angen buddsoddiad sylweddol.

